Dear Customer

**Penmaenmawr Mobile Service**
**Penmaenmawr Library Car Park, Bangor Road, Penmaenmawr, LL34 6DA**

We are delighted to let you know that following the introduction of a temporary mobile service due to the temporary closure of Penmaenmawr Post Office we will be re-opening the branch on Thursday 21 March 2019. This will be in a new location – Penmaenmawr Petfood Supplies, Canton House, Pant Yr Afon, Penmaenmawr, LL34 6BY.

We will display posters in the new location to tell customers the good news. If you are a local representative, it would be helpful if you could share this information with any local groups or organisations that you know within the community, for example on noticeboards, local charities and in GP surgeries, to help our customers and your constituents understand what is happening to the Post Office in the local community. If you would like a supply of these posters please let us know.

We are keen to restore services to this community as soon as possible, so we have decided to go ahead with our plans. However we would welcome suggestions about specific aspects of the change particularly on the following areas:

- Do you have any comments about access into the new premises?
- Do you have any comments about access inside the new premises?

We will be accepting comments until Thursday 28 February 2019. We won't be responding to you individually, but any comments received will be taken into consideration as we finalise our plans.

An information sheet is enclosed that provides more details about your new branch. For further information or to share your views, please visit our Consultation Hub via the link below, then use the search function to find the engagement for this branch either by branch name, postcode or the unique branch code **714614**

postofficeviews.co.uk

Once the plans have been finalised, we'll display a poster in branch and information will be provided on our Consultation Hub outlining the main comments received and our response. If there are any unforeseen changes to the opening date, posters will be displayed in branch to let customers know.

We're carrying out this engagement in line with our Principles of Community Engagement. A copy is available at the end of this letter.

Thank you for your support in restoring a Post Office service.

Yours faithfully

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Area Network Change Manager**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited

**How to contact us:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Call: 03452 66 01 15
Textphone: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
**Please note this is the full address to use and no further address details are required.**

Want to tell us what you think right here and now? Scan here.

If you don't have a QR code scanner on your phone, you can find one in your app store.

Post Office Limited is committed to protecting your privacy. Information about how we do this can be found on our website at [postoffice.co.uk/privacy](postoffice.co.uk/privacy)

Items sent by Freepost take two working days to arrive, so responses by Freepost should be sent in sufficient time to arrive before the end of the engagement period. Working days do not include Saturdays or Sundays. Responses received after the deadline will not be considered.

| **Penmaenmawr Post Office information sheet** | |
|---|---|
| **Address** | Penmaenmawr Petfood Supplies<br>Canton House<br>Pant Yr Afon<br>Penmaenmawr<br>LL34 6BY |
| **Post Office opening hours** | Mon 09:00 – 17:30<br>Tue 09:00 – 17:30<br>Wed 09:00 – 17:30<br>Thu 09:00 – 17:30<br>Fri 09:00 – 17:30<br>Sat 08:30 – 14:00<br>Sun Closed |
| **Distance** | 80 metres away from the current location, along varied terrain. |
| **Accessibility** | **Access and facilities**<br>The new premises will have a wide door and a ramp at the entrance. Internally, there would be a hearing loop and space for a wheelchair.<br><br>**Parking**<br>Time restricted roadside parking is available nearby. |
| **Retail** | Pet food Store |
| **Proposed date of Change** | Thursday 21 March 2019 |

**To get this information in a different format, for example, in larger print, audio or braille call 03452 66 01 15 or Textphone 03457 22 33 55.**

| **Penmaenmawr Post Office® services available** | |
|---|---|
| **Your Postmaster or our Customer Helpline on 03452 66 01 15 will be happy to help you with any queries about product availability or provide you with details of maximum value of transactions. Customers can also shop online at www.postoffice.co.uk** | |
| | **New branch** |
| **Mail** | |
| First & Second Class mail | ✓ |
| Stamps, stamp books (1st class 6 & 12 only, 2nd class 12 only) | ✓ |
| Special stamps (Christmas issue only) & postage labels | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Home shopping returns | ✓ |
| Inland small, medium & large parcels | ✓ |
| Express & contract parcels | ✓ |
| British Forces Mail (BFPO) | ✓ |
| International letters & postcards (inc. signed for & Airsure) | ✓ |
| International parcels up to 2kg & printed papers up to 5kg | ✓ |
| Parcelforce Worldwide International parcels | ✓ |
| Articles for the blind (inland & international) | ✓ |
| Royal Mail redirection service | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Withdrawals, deposits and payments** | |
| Post Office Card Account | ✓ |
| All personal and business banking cash withdrawals, deposits, balance enquiries & enveloped cheque deposits (card, barcoded or manual) | ✓ |
| Postal orders | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Change giving | ✓ |
| **Bill payments** | |
| Bill payments (card, barcoded or manual) | ✓ |
| Key recharging | ✓ |
| **Driving** | |
| Car tax | ✓ |
| **Licences** | |
| Rod fishing licences | ✓ |
| **Travel** | |
| Pre-order travel money | ✓ |
| Travel insurance referral | ✓ |
| | |
| Mobile Top-ups & E vouchers | ✓ |
| **Payment by cheque** | ✓ |

Other Products are available at **Llanfairfechan** Post Office, Village Road, Llanfairfechan, LL33 0NH

Opening times:
Mon – Sun 07:00 – 21:00

## Principles of Community Engagement on changes to the Post Office network

We are committed to engaging and supporting our customers and their representatives as we make changes to the Post Office network. The following Principles will be adopted when communicating about changes to your local Post Office branch.

*We will **Notify** - where we are informing customers of changes around:*

- Opening hours
- Temporary closure[1]/ temporary service interruption
- Re-opening of a temporarily closed branch in the same site
- Opening a new branch unrelated to a previous closure
- Location used by a Mobile Post Office within a community

We will display a poster in branch (or nearby if appropriate) to notify customers of the above changes, providing four weeks' notice. Where four weeks' notice is not possible, we will provide notice as soon as we are able to. For temporary closures we will include details of the nearest alternative Post Offices and our customer helpline/textphone.

*We will **Engage** - where we are seeking feedback on a decision that has been made on:*

- Re-opening of a temporarily closed branch in a new location (where the branch has been closed for more than three months)
- Franchising of a Directly Managed branch in its existing site

While the decision to proceed will have already been made, we will welcome suggestions about specific aspects of the change such as access arrangements and the internal layout. We will provide four weeks' notice or, where extenuating circumstances prevent this, we will provide as much notice as possible.

During this period we will display a poster in branch and provide information online. We will contact locally elected representatives[2], the Consumer Advocacy Bodies and selected charities[3], providing clear information on any changes to services or access arrangements at the branch. We will ask locally elected representatives to share information with other key community outlets (such as notice boards, local charities, magazines, GP surgeries etc.). We will publish the outcome of the engagement online and in branch, providing a summary of key issues raised with a clear response to each and any changes made to our original plans.

*We will **Consult** - where we are seeking feedback on proposals prior to a decision being made on the:*

- Permanent closure of a Post Office branch[4]
- Permanent relocation of a Post Office branch (including the franchising of a Directly Managed branch to a new site)

We will carry out a six-week[5] local public consultation, informing customers, locally elected representatives, Consumer Advocacy Bodies and selected charities of the proposal. This information will also be made available online and for a Directly Managed branch a press release will be issued to local media. We will ask locally elected representatives to share information with other key community outlets (such as notice boards, local charities, magazines, GP surgeries etc.).

The consultation will ask specific questions on areas where we would like feedback on access to Post Office services and will confirm when the change will happen if the decision is made to proceed. We will provide clear information on any changes to services as well as access to and into the new branch.

We welcome all feedback with the following factors being taken into account in making our decision, which we expect to make within four weeks of the close of consultation:

- Customer access to, into and inside the new or alternative branch/branches with particular regard to vulnerable consumers
- Any local community issues which could be affected by or affect the proposal

At the end of the consultation process we will write to locally elected representatives, Consumer Advocacy Bodies and respondents to the consultation (where practical) to confirm our decision and provide a summary of key issues raised with a clear response to each. This information will be made available online and in branch (where possible).

***These Principles have been agreed with Citizens Advice, Citizens Advice Scotland and the General Consumer Council for Northern Ireland; the independent statutory consumer watchdogs.***

*What to do if you feel these Principles haven't been followed:*

Please get in touch so we can investigate your complaint. We'll explain in our reply whether we believe we have followed our Principles of Community Engagement and will provide you with the contact details for the relevant consumer watchdog (Citizens Advice, Citizens Advice Scotland or the Consumer Council for Northern Ireland) if you're not satisfied with our response. The watchdog will independently assess whether we have followed the Principles of Community Engagement process (rather than the decision itself) and recommend any actions with respect to the complaint.

**postofficeviews.co.uk**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Call: 03452 66 01 15**
**Textphone: 03457 22 33 55**

[1] We will provide an update to locally elected representatives if the status of the temporarily closed branch has not changed after 12 months.

[2] Locally elected representatives include but are not restricted to the Member of Parliament, Scottish Parliament, Welsh Assembly, or Northern Ireland Assembly, Local Authority Chief Executive, Ward Councillors, Parish or Community Council.

[3] Selected charities are local Citizens Advice, Age UK, Northern Ireland's Disability Action and Northern Ireland's Rural Community Network. All parties referred to in 2 and 3 above are encouraged to share all information with local groups and organisations who they believe have an active interest in changes to their local Post Office.

[4] There may be a small number of cases where due to circumstances outside our control we have no option other than to permanently close a branch in a particular location. In these cases the consultation will seek feedback on alternative Post Office service provision in the area.

[5] If the consultation includes more than four weeks in July in Scotland and Northern Ireland or more than four weeks in August in England and Wales we will extend the period by one calendar week. We will not start any local public consultation during the two-week period which includes the Christmas and New Year bank holidays.

Annwyl Gwsmer

**Gwasanaeth Symudol Penmaen-mawr**
**Maes Parcio Llyfrgell Penmaen-mawr, Ffordd Bangor, Penmaen-mawr, LL34 6DA**

Rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi, yn dilyn cyflwyno gwasanaeth symudol dros dro am fod Swyddfa Bost Penmaen-mawr wedi cau dros dro, y byddwn yn ailagor y gangen ddydd Iau 21 Mawrth 2019. Bydd mewn lleoliad newydd, sef Penmaenmawr Petfood Supplies, Canton House, Pantyrafon, Penmaen-mawr, LL34 6BY.

Byddwn yn gosod posteri yn y lleoliad newydd i roi'r newyddion da i gwsmeriaid. Os ydych yn gynrychiolydd lleol, byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn eich cymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o'r posteri hyn, rhowch wybod i ni, os gwelwch yn dda.

Rydym yn awyddus i adfer gwasanaethau i'r gymuned hon cyn gynted â phosibl, ac felly rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen a'n cynlluniau. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- A oes gennych unrhyw sylwadau am fynediad i'r adeilad newydd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am hygyrchedd y tu mewn i'r adeilad newydd?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan ddydd Iau 28 Chwefror 2019. Ni fyddwn yn rhoi ymateb yn unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

Cafodd taflen wybodaeth sydd yn rhoi rhagor o fanylion am eich cangen newydd ei hamgáu. I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu eich sylwadau, byddwch cystal ag ymweld â'n Canolfan Ymgynghori trwy'r ddolen isod. Yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i gael y manylion cysylltu ar gyfer y gangen hon, naill ai trwy enw'r gangen, y cod post neu'r cod unigryw ar gyfer y gangen, sef **714614**

postofficeviews.co.uk

Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod poster yn y gangen a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu'r prif sylwadau a dderbyniwyd a'n hymateb iddynt. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod mewn canghennau er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae hyn yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned. Mae copi ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn.

Diolch i chi am eich cymorth i adfer gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Yr eiddoch yn gywir

*Carol Williams*

**Carol Williams**
**Rheolwraig Ardal dros Newidiadau i'r Rhwydwaith**

Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.
Registered Office Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London. EC2Y 9AQ
Post Office and the Post Office logo are registered trade marks of Post Office Limited
Cofrestwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540
Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain. EC2Y 9AQ,
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig i Swyddfa'r Post Cyfyngedig

PostOffice.co.uk

**Sut i gysylltu â ni:**

postofficeviews.co.uk

comments@postoffice.co.uk

Ffôn: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55

FREEPOST Your Comments
**Sylwch, os gwelwch yn dda, mai hwn yw'r cyfeiriad llawn i'w ddefnyddio ac nad oes angen manylion cyfeiriad eraill.**

Eisiau rhoi eich barn i ni yn y fan a'r lle – Sganiwch yma.

Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael hyd i un yn eich storfa ap.

Mae Swyddfa'r Post Cyfyngedig wedi ymrwymo i ddiogelu eich preifatrwydd. Mae gwybodaeth ynghylch sut y gwnawn hyn ar ein gwefan yn postoffice.co.uk/privacy

Mae eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, ac felly dylai ymatebion a ddanfonir trwy Radbost gael eu postio mewn da bryd i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgysylltu. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys dydd Sadwrn na dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

| **Taflen wybodaeth Swyddfa Bost Penmaen-mawr** | |
|---|---|
| **Cyfeiriad** | Penmaenmawr Petfood Supplies<br>Canton House<br>Pantyrafon<br>Penmaen-mawr<br>LL34 6BY |
| **Oriau agor Y Swyddfa Bost** | Llun 09:00 – 17:30<br>Maw 09:00 – 17:30<br>Mer 09:00 – 17:30<br>Iau 09:00 – 17:30<br>Gwen 09:00 – 17:30<br>Sad 08:30 – 14:00<br>Sul Ar gau |
| **Pellter** | 80 metr o'r lleoliad presennol, ar hyd tir amrywiol ei natur. |
| **Hygyrchedd** | **Mynediad a chyfleusterau**<br>Byddai gan yr adeilad newydd ddrws llydan a ramp wrth y fynedfa. Y tu mewn, ceid dolen glyw a lle ar gyfer cadair olwyn.<br>**Parcio**<br>Mae modd parcio am amser cyfyngedig ar ymyl y ffordd gerllaw. |
| **Y Siop** | Siop fwyd anifeiliaid anwes |
| **Dyddiad arfaethedig y newid** | Dydd Iau 21 Mawrth 2019 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

| **Gwasanaethau ar gael yn Swyddfa Bost® Penmaen-mawr** | |
|---|---|
| **Bydd eich Postfeistr neu ein Llinell Gymorth i Gwsmeriaid ar 03452 66 01 15 yn falch eich helpu ag unrhyw ymholiadau am argaeledd cynnyrch neu roi manylion i chi am werth uchaf trafodion. Hefyd, gall cwsmeriaid siopa ar-lein yn www.postoffice.co.uk** | |
| | **Y gangen newydd** |
| **Post** | |
| Post Dosbarth Cyntaf ac Ail Ddosbarth | ✓ |
| Stampiau, llyfrau stampiau (Dosbarth 1af: 6 a 12 yn unig, 2il Ddosbarth: 12 yn unig) | ✓ |
| Stampiau arbennig (dyroddiad y Nadolig yn unig) a labeli post | ✓ |
| Signed For | ✓ |
| Special Delivery | ✓ |
| Dychweliadau siopa o gartref | ✓ |
| Parseli mewndirol bach, cymedrol a mawr | ✓ |
| Parseli Express a chontract | ✓ |
| Post Lluoedd Prydain (BFPO) | ✓ |
| Llythyrau a chardiau post Rhyngwladol (yn cynnwys Signed For ac Airsure) | ✓ |
| Parseli Rhyngwladol hyd at 2kg a phapurau printiedig hyd at 5kg | ✓ |
| Parseli Parcelforce Worldwide Rhyngwladol | ✓ |
| Eitemau i'r Deillion (mewndirol a rhyngwladol) | ✓ |
| Gwasanaeth ailgyfeirio'r Post Brenhinol | ✓ |
| Local Collect | ✓ |
| Drop & Go | ✓ |
| **Codi arian, adneuon a thaliadau** | |
| Cyfrif Cerdyn Swyddfa'r Post | ✓ |
| Bancio personol a busnes: codi arian, adneuon, ymholiadau balans ac adneuo sieciau mewn amlenni (wrth ddefnyddio cerdyn, cod bar neu â llaw) | ✓ |
| Archebion Post | ✓ |
| Moneygram | ✓ |
| Rhoi newid | ✓ |
| **Talu Biliau** | |
| Talu biliau (cerdyn, â chod bar neu â llaw) | ✓ |
| Adlenwi allweddi | ✓ |
| **Gyrru** | |
| Treth y car | ✓ |
| **Trwyddedau** | |
| Trwyddedau pysgota â gwialen | ✓ |
| **Teithio** | |
| Arian Teithio wedi'i archebu o flaen llaw | ✓ |
| Atgyfeirio yswiriant teithio | ✓ |
| | |
| Adlenwadau ffonau symudol ac E-dalebau | ✓ |
| **Talu â siec** | ✓ |
| Mae cynhyrchion eraill ar gael yn Swyddfa Bost **Llanfairfechan**, Ffordd y Pentref, Llanfairfechan, LL33 0NH | Oriau agor: Llun – Sul 07:00 – 21:00 |

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn* ***Hysbysu*** *– pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:*

- Oriau Agor
- Cau dros dro[1]/ ymyriad dros dro i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd dros dro yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â changen a gaewyd yn flaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n priodol) er mwyn hysbysu cwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan roi pedair wythnos o rybudd. Pan nad oes modd rhoi pedair wythnos o rybudd, byddwn yn rhoi rhybudd cyn gynted ag y gallwn. Ar gyfer pob cau dros dro, byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post eraill agosaf a'n llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

*Byddwn yn* ***Ymgysylltu*** *– pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol.

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[3], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

*Byddwn yn* ***Ymgynghori*** *– pan fyddwn yn chwilio am ymateb i argymhellion cyn gwneud penderfyniad ynghylch:*

- Cau cangen Swyddfa'r Post[4] yn barhaol
- Adleoli cangen Swyddfa'r Post yn barhaol (gan gynnwys masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol i safle newydd).

Byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus lleol dros gyfnod o chwe wythnos[5] er mwyn rhoi gwybod i gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol am yr argymhelliad. Bydd yr wybodaeth hon ar gael hefyd ar-lein ac ar gyfer cangen â Rheolaeth Uniongyrchol cyflwynir datganiad newyddion i'r cyfryngau lleol. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.).

Bydd yr ymgynghoriad yn golygu gofyn cwestiynau penodol pan fyddwn yn dymuno cael adborth ynghylch mynediad i wasanaethau Swyddfa'r Post a bydd yn cadarnhau dyddiad y newid os taw'r penderfyniad yw i fwrw ymlaen. Byddwn yn rhoi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau yn ogystal â mynediad i'r gangen newydd a'r tu mewn iddi.

Rydym yn croesawu pob adborth ac mae'r holl ffactorau isod yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniad; disgwylir y gwneir y penderfyniad hwnnw o fewn pedair wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad:

- Mynediad cwsmeriaid i, i mewn i a'r tu mewn i'r gangen /canghennau newydd neu amgen, gydag ystyriaeth benodol i ddefnyddwyr sydd yn agored i niwed
- Unrhyw faterion cymunedol lleol a allai gael eu heffeithio gan yr argymhelliad neu ddylanwadu arno.

Ar ddiwedd y broses ymgynghorol byddwn yn ysgrifennu at gynrychiolwyr etholedig lleol, Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac ymatebwyr i'r ymgynghoriad (os yw hynny'n ymarferol) er mwyn cadarnhau ein penderfyniad a rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb clir i bob un. Bydd yr wybodaeth ar gael ar-lein ac yn y gangen (pan fo hynny'n bosibl).

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, sef cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydych wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn).

**postofficeviews. co.uk.**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[1] Rhoddwn ddiweddariad i gynrychiolwyr etholedig lleol os nad yw statws y gangen sydd ar gau dros dro wedi newid ar ôl 12 mis.

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

[3] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

[4] Gall fod nifer fach o achosion pan, oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, nad oes gennym unrhyw ddewis ond i gau cangen mewn lleoliad penodol yn barhaol. Mewn achosion o'r fath byddwn yn ceisio adborth ynghylch darpariaeth Swyddfa'r Post amgen yn yr ardal.

[5] Os yw'r ymgynghoriad yn cynnwys mwy na phedair wythnos ym mis Gorffennaf yn Yr Alban a Gogledd Iwerddon neu fwy na phedair wythnos ym mis Awst yng Nghymru a Lloegr, byddwn yn estyn y cyfnod am un wythnos galendr. Ni fyddwn yn dechrau unrhyw ymgynghoriadau cyhoeddus lleol yn ystod y bythefnos sydd yn cynnwys gwyliau banc y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.